DP 1064/07-11 - Welsh language version.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rhodri Morgan AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister for Wales**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref MB/FM/0100/08

Y Gwir Anrh Paul Murphy AS

Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Tŷ Gwydyr
Whitehall
Llundain SW1A 2ER

Chwefror 2008

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein sgwrs ddiweddar am raglen gau bresennol Post Office Ltd. a'r effaith y mae penderfyniadau cau yn debygol o'i chael yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

Er nad yw polisi Swyddfa'r Post wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ymwybodol o werth swyddfeydd post o'r cychwyn, yn gymdeithasol a chymunedol, yn arbennig yng nghyd-destun cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau mwyaf ynysig a difreintiedig. Rydym yn deall ac yn cefnogi'r rôl mae swyddfeydd post yn ei chwarae i gynnal cymunedau a hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Er mwyn dangos ein hymrwymiad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i swyddfeydd post drwy gynnig gyfraddau is o dan y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes, sy'n cynnig hyd at £4,000 o gymorth y flwyddyn i swyddfeydd post bach. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyflwyno Cronfa Ddatblygu a ddyfarnodd grantiau gwerth £4.1m i 106 swyddfa post yng Nghymru rhwng 2002 a 2004 i gynyddu eu dichonoldeb. Roedd y grantiau hyn ar gael yn yr 125 ardal fwyaf difreintiedig a'r 125 ardal fwyaf ynysig yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i agor Cronfa Ddatblygu Swyddfeydd Post newydd. Rhaid i ni fod yn sicr pa swyddfeydd mae Post Office Ltd. yn bwriadu eu cau yng Nghymru cyn i ni agor y Gronfa newydd, ac felly mae'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio wedi cyhoeddi bydd y Gronfa ar agor o fis Ionawr 2009 ymlaen.

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau, er fy mod yn deall yr angen i resymoli rhwydwaith swyddfa'r post er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn gynaliadwy yn y dyfodol, bod gen i bryderon mawr am y ffordd mae'r rhaglen gau yn cael ei gweithredu. Rwy'n rhannu nifer o'r pryderon a drafodir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ar y Rhaglen Gau Swyddfeydd Post a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror. (HC 292-1) Yn benodol, ymddengys bod Post Office Ltd. yn glynu'n rhy dynn i weithdrefnau nad ydynt yn ddigon sensitif i'n hanghenion ni.

Cyfarfu'r Dirprwy Brif Weinidog, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio gyda chynrychiolwyr y Post Brenhinol, Post Office Ltd. a Ffederasiwn yr Is-Bostfeistri ar 6 Chwefror. Yn y cyfarfod hwn, tynnodd y Gweinidogion sylw at ddwy broblem benodol. Yn gyntaf, enwi swyddfeydd post y bwriedir eu cau mewn ardal,

ond cyhoeddi wedi hynny bod rhai pellach am gau os, yn dilyn ymgynghoriad, bydd unrhyw un ar y rhestr wreiddiol yn cael eu 'hachub'; ac yn ail, dewis y swyddfeydd a ddylai gau yn eu lle.

Yn y gorffennol, rydym wedi dweud na fyddem ni'n cynnig sylwadau ar gau swyddfeydd post unigol. Serch hynny, mae'r broses yn agored i feirniadaeth os nad yw'r gweithdrefnau yn cael eu hystyried fel rhai sy'n sensitif i anghenion cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Un enghraifft yw'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar gau arfaethedig Swyddfa Post Perthcelyn, y cynigiwyd ei chau yn dilyn y penderfyniad i achub swyddfeydd post yng Nghaerdydd a'r Barri.

Mae Swyddfa Post Perthcelyn yn gwasanaethu ardal ynysig a difreintiedig yng Nghymoedd De Cymru, ac fe'i cynigiwyd fel swyddfa i'w chau yn dilyn achub dwy swyddfa bost arall o fewn y Cynllun Ardal cyntaf i Gymru. Mae nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi cyflwyno sylwadau i mi sy'n mynegi pryder mawr am y bwriad hwn i gau. Yn ddi-os, mae pryderon difrifol am oblygiadau cymdeithasol a chymunedol y penderfyniad hwn ac am yr effaith y byddai'n ei gael ar y gymuned leol. Mae Perthcelyn mewn ward sydd bedwerydd allan o 1896 o ardaloedd ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dengys y ffaith i'w enw gael ei ychwanegu yn hwyr at y rhestr, i gymryd lle Swyddfa'r Post ar High St, y Barri (sydd yn safle 964 ar y rhestr) yn glir bod y swyddfeydd post hyn yn cael eu targedu'n annheg. Maent yn gwasanaethu rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig ac sydd, fwy na thebyg, yn fwyaf dibynnol ar fudd-daliadau ac sy'n cael y mwyaf o anhawster masnachol o ran datblygu ffynonellau amgen o incwm.

Yn y cyfarfod, ailadroddodd Alan Cook, Rheolwr Gyfarwyddwr Swyddfa'r Post, yr hyn a ddywedodd yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol ar 5 Chwefror, sef nad yw nifer y swyddfeydd sydd angen eu cau er mwyn lleihau colled ariannu Post Office Ltd. yn derfynol. Yn y gorffennol, bu sôn am gau tua 2,500, ond cadarnhaodd y gellid cyflawni'r gostyngiad mewn colledion wrth gau ychydig dros 2,400 o swyddfeydd post.

Rwy'n argyhoeddedig y bydd ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad ar gau arfaethedig Swyddfa Post Perthcelyn ac rwy'n deall y bydd rhaid i Post Office Ltd. asesu'r ymatebion mewn da bryd. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw ymdrechion y gallwch eu gwneud gyda'ch cydweithwyr yn San Steffan i sicrhau bod Post Office Ltd. yn ystyried effaith gyflawn cau swyddfeydd post ar y cymunedau lleol maen nhw'n eu gwasanaethu, ac yn arbennig y rheini lle bo lefel amddifadedd ardal yn amlwg.